


Sut i "ddefro" cwmni
bwyd a diod a roddwyd i
"gysgu" oherwydd
argyfwng Covid-19



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



Er nad ydym yn gwybod eto pryd y bydd bywyd yn dechrau dychwelyd i normal, mae rhai ystyriaethau y mae'n rhaid i berchnogion / rheolwyr cwmnïau bwyd neu ddiod ddechrau meddwl amdanynt.

Fe aethon ni i mewn i'r cyfyngiadau hyn dros nos, ond ni allwch ail-gychwyn eich busnes dros nos. Nod y canllawiau yma yw eich helpu i feddwl am ganlyniadau ariannol ailgychwyn eich busnes ac osgoi unrhyw anffawd a allai gostio arian prin i chi.



Beth yw costau ailgychwyn eich busnes?

Mae rhagweld sut i ail-gychwyn a'r effaith ar eich llif arian yn brif flaenoriaeth

Peidiwch â than-amcangyfrif costau dychwelyd i'r farchnad. Er gwaethaf y cymorth diweddar, bydd eich costau sefydlog (rhent, trethi, pobl, dwr a thrydan ac ati) yn cael eu talu o'r diwrnod cyntaf.

Yn ogystal, efallai y bydd angen dod o hyd i'r cyfalaf gweithio sydd ei angen ar gyfer gwneud eich cynhyrchion. Os yw'ch cyflenwyr o'r farn nad yw eu hyswiriant credyd yn cynnwys eich sector, neu fod angen arian ymlaen llaw oherwydd bod ganddyn nhw broblemau ariannol, yna efallai byddwch chi'n crafu i dalu pobl dim ond i ddechrau gwneud cynnyrch.

Wrth gwrs, bydd eich cwsmeriaid hefyd yn disgwyl yr hen delerau credyd a gallent hyd yn oed oedi talu, felly mae cyllido yn hollbwysig. Ydych chi wedi defnyddio'ch holl gyfleusterau credyd i oroesi'r argyfwng a'r cau lawr?

Ble allwch chi gael cyfalaf gweithio tymor byr?

- Eich cynilion fel benthyciad cyfarwyddwr i'r busnes
- Cyfleuster gorddrafft, gofynnwch i'r banc ymestyn os yn bosibl
- Benthyciad banc tymor byr heb ei warantu gan eich banc presennol (cofiwch, mae Llywodraeth y DU wedi rhoi benthyc llawer o arian rhad iddynt ar gyfer ei ail-fenthyc)
- Benthycwyr safonol eraill: Mae gan Fanc Busnes Prydain restr o fanciau newydd a phresennol sy'n defnyddio'r cynlluniau a gefnogir gan y llywodraeth. (Sicrhewch fod gennych lif arian a rhesymau cadarn yn barod ar eu cyfer)

Ceisiwch osgoi troi at:

- Cyllid anfoneb: efallai na fydd yn gweithio os nad yw'ch cwsmeriaid yn yswiriadwy oherwydd eu statws credyd; er enghraifft, mae'r sector lletygarwch yn cael ei farcio i lawr
- Y benthycwyr arian-ar-ofyn. Efallai na fydd y cyfraddau llog yn edrych yn ddrwg nes i chi ddarganfod eu bod yn dyfynnu am y mis nid y flwyddyn

Byddwch â chynllun ar gyfer darparu cyfalaf gweithio tymor byr i'ch cael chi'n ôl ar eich traed.

Gwiriadau ariannol

Mae rhai gwiriadau amlwg i'w gwneud:

A yw'ch balansau cychwynol a chau ar ddatganiadau banc yn cytuno â'ch system gyfrifo?

A ydych wedi gwirio fod gan unrhyw system ERP neu daflenni rheoli stoc y balans / lefel cywir?

Ydych chi wedi dileu stoc, pecynau, cynhwysion ac ati?
(Mae angen cyfrifo am y rhain i gyd a diweddarau'r system)

A fuodd diwedd eich blwyddyn ariannol tra'ch bod wedi cau?
(Gofynnwch i'ch cyfrifydd pa lefel stoc a / neu werthoedd sydd eu hangen arnynt)

Os oes gennych golled efallai y bydd angen iddo ddigwydd yn yr hen flwyddyn ariannol gan fod colled yn y flwyddyn Covid-19 yn cael ei egluro'n haws a gellir ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf a'i roi yn erbyn yr elw.

Yw eich hen fodel busnes yn berthnasol o hyd?

Un cwestiwn sylfaenol y dylech ei ofyn yw "a oes gennym yr un busnes"?
Gallai cymryd yn ganiataol y bydd yn fusnes yn ôl fel arfer fod yn gamgymeriad.

Mae defnyddwyr wedi cael eu gyrru i batrymau newydd o ymddygiad.

Gallai hyn olygu eu bod wedi dod o hyd i frandiau newydd, teyrngarwch newydd a ffyrdd newydd o brynu a bwyta.

Ydych chi wedi cadw mewn cysylltiad â'ch rhestr cwsmeriaid neu ddefnyddwyr?

Efallai y bydd angen defnyddio cyfryngau cymdeithasol, cyswllt â chwsmeriaid a gweithgareddau dilynol, a gweithgareddau hyrwyddo traddodiadol yn gyflym iawn i ailsefydlu'r busnes.

Er na ddylai fod wedi digwydd, efallai y bydd dad-restru neu 'anghofio' i archebu yn golygu y bydd angen gwario arian i ailadeiladu'r busnes a oedd gennych ar un adeg.

Oes angen cymaint o staff arnoch chi? Mae rhai cwmnïau wedi rhoi eu staff ar 'furlough' a chanfod eu bod yn gallu gweithredu ar-lein, gan ostwng eu gorbenion yn eu model busnes, h.y. ailstrwythuro mewn ffaith.

Cyn i chi fynd yn ôl i'r hen fodel, mae'n werth meddwl am y farchnad ac a ellir ei wasanaethu'n wahanol?

Meddyliwch am sut i adeiladu / ailadeiladu eich rhestr cwsmeriaid / defnyddwyr ar ôl cau i lawr.

Pa gostau y gallech chi eu hysgwyddo yma?

Beth yw'r costau gweithredol?

Nid nawr yw'r amser i gael damweiniau neu wneud camgymeriadau pan fydd arian yn dynn a damweiniau'n costio arian.

Peidiwch â rhuthro - dyma'r foment y gwelwch fod y cywasgwr aer yn gollwng aer, fod y peiriant labelu inc-jet / laser heb gau i lawr yn iawn ac yn gwrthod gweithio. Ni fyddwch yn adennill gwerthiant os na allwch gynhyrchu'r cynhyrchion.



Briffiwch bawb fel petaent yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl salwch tymor hir. A oes angen i chi wneud sesiynau anwythio byr?



Beth am bolisi alergenau, diogelwch, hyfforddiant ar unrhyw becyn y mae staff wedi'i anghofio neu nad yw staff newydd wedi'i ddefnyddio o'r blaen. Ewch trwy'r prosesau ac atgoffa pawb o'ch Pwyntiau Rheoli Critigol.



Os na fyddwch yn cynhyrchu eich hunain, gwiriwch fod y broses ar gyfer archebu yr holl gynhwysion sydd eu hangen, pecynnu ac ati yn gyfredol. A yw eich proseswyr / cyflenwyr contract yn gallu ail-gychwyn gan ddefnyddio'r hen stoc heb orfod eu dileu a'u hail-archebu o'r newydd?



Efallai y bydd angen hyfforddiant allanol a'r costau cysylltiedig ar rai o'r ystyriaethau hyn. Ond mae hyd yn oed hyfforddiant mewnol yn gost, felly os oes angen gwneud hyn, ei gynnwys yn eich cynllun adweithio.

Gall Arloesi Bwyd Cymru a'r Canolfannau Bwyd gynghori a darparu cefnogaeth dechnegol ar ailgychwyn busnes bwyd neu ddiod, felly gwiriwch y canllawiau technegol sydd ar gael o <http://foodinnovation.wales/> neu siaradwch â'ch cyswllt arferol.



Achredïadau

Mae colli achredïad yn gost fusnes nad oes ei hangen arnoch ar hyn o bryd.

Byddai SALSA, BRC fel arfer yn dirwyn i ben ar ol cyfnod o segurdod ond mae'n rhaid i ni dybio nad oes unrhyw un yn mynd i ddileu eich achredïad. Wedi dweud hynny, meddyliwch sut y gallwch chi ei amddiffyn a'ch enw da. Cofiwch fod eich yswiriant atebolrwydd cynnyrch yn gweithio dim ond os gallwch chi ddangos diwydrwydd dyladwy.

Gwiriwch eich cofnodion perthnasol cyn dechrau cynhyrchu. A yw cofnodion hyfforddi pawb yn gyfredol? Os na, gwnewch yn siŵr eich bod yn diweddarau unrhyw un sydd angen adnewyddiad ac yn diweddarau eich cofnodion. Os ydych ar arolygiadau dirybudd, rhaid i chi dybio y gallai archwilydd droi i fyny unrhyw bryd.

Profi

Os oes gennych labordy ar gyfer gwirio diogelwch / ansawdd bwyd, yna gwiriwch y samplau safonol ac ail-raddiwch y teclyn prawf / monitro rhag ofn y bydd yn effeithio ar ddiogelwch neu ansawdd y cynnyrch newydd.

Beth am wneud sampl prawf bach os nad yw'r teclyn wedi'i ddefnyddio ers amser? Yn enwedig os oes cynhwysion na chawsant eu defnyddio am gyfnod rhag ofn y gallai triniaeth gwres amlygu diffygion?




Yn olaf, gwirio, gwirio a gwirio eto

Beth allech chi fod wedi'i anghofio. Dechreuwch restr wirio nawr a daliwch ati i ychwanegu ati er mwyn i chi gael y gwiriadau hyn yn eu lle.

Ble mae'r trapiau llwch, trapiau dŵr, trapiau plâu a sumps? A yw'r lefelau hylif (olew, dwr ac ati) yr holl offer lle dylent fod? Os byddwch chi'n cychwyn peiriant a'i dorri, bydd yn costio amser ac arian i chi, ac efallai na fydd darnau sbâr, peirianwyr, ac ati ar gael yn rhwydd, gan achosi mwy o gost i chi trwy orfodi segurddod yn ogystal â chost atgyweiriadau.

Gwiriwch eich cerbydau. A oes angen unrhyw waith cynnal a chadw? Peidiwch ag anghofio pethau sylfaenol fel gwirio'r olew! A chyn i chi roi cerbydau yn ôl ar y ffordd edrychwch a oes angen adnewyddu'r dreth, MOT ac yswiriant.





Cadwch mewn cysylltiad

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth y llywodraeth mewn ymateb i argyfwng Covid-19, ewch i:

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/>

I gael help i ailgychwyn gweithrediadau eich ffatri, cysylltwch â Food Innovation Wales:

<http://foodinnovation.wales/>

I gael sgwrs gyfrinachol am sicrhau cyfalaf gweithio tymor byr ac agweddau ariannol ailgychwyn cynhyrchu, e-bostiwch:

Bwyd-food@bic-innovation.com